**ATODIAD 2**

# CYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNGOR GWYNEDD 2008/09- 2010/11

## AIL ADOLYGIAD

## BLWYDDYN 2010/ 2011

## AIL ADOLYGIAD O GYNLLUN TAIR BLYNEDD CYNGOR GWYNEDD

### 1. Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor yn gweithredu yng nghyd-destun anghenion a blaenoriaethau pobl a cymunedau y Sir a mae'r Cyngor am wneud yr hyn a fedr er lles pobl Gwynedd mewn partneriaeth. Golyga hyn weithio fel rhan o Gwynedd ar y Cyd, partneriaeth y Strategaeth Gymunedol, a chydweithio â'r cyhoedd a'n partneriaid o bob sector. Mae'r Strategaeth Gymunedol ar gyfer 2008/12 yn gosod  gweledigaeth tymor hir ar gyfer y sir. Mae'r weledigaeth hynny yn nodi "erbyn 2021, ein gweledigaeth yw y bydd Gwynedd wedi ymgymryd â'r her a'r cyfleoedd mewn byd sy'n newid i fod yn gymuned fwy bywiog, llewyrchus, agored a chydlynol sy'n ymfalchïo ac yn hyrwyddo ei asedau diwylliannol a naturiol unigryw ac sy'n cyfrannu'n bositif tuag at fyd mwy cynaliadwy." Er mwyn cwrdd â'r her o wireddu'r weledigaeth honno, mae saith maes ymyrraeth wedi eu hadnabod yn y Strategaeth gymunedol ar y cyd â'n partneriaid ac mae'r blaenoriaethau sydd yn y rhaglenni o fewn y cynllun hwn yn ymateb i'r meysydd ymyrraeth hynny .

Yn ystod 2008, cyhoeddodd y Cyngor gynllun strategol ar gyfer y cyfnod 2008/09 i 2010/11. Y nôd oedd paratoi cynllun a fyddai'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer y cyfnod hynny ar gyfer prif weithgareddau'r Cyngor ac ar sail asesiad risg o'r materion y mae rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt, o fewn cyd-destun gwireddu blaenoriaethau hir dymor y Sir

Yn amlwg, mae manteision o ran cynllunio tymor hwy gan ei fod yn cynnig elfen o sefydlogrwydd yng nghynlluniau pwysicaf y Cyngor. Fodd bynnag, nodwyd, o'r cychwyn, bod yn rhaid i'r Cyngor hefyd fod yn effro i newidiadau arwyddocaol yn y meysydd polisi, perfformiad, ymchwil, cynllunio a gwleidyddol

Ers cyhoeddi'r Cynllun Tair Blynedd gwreiddiol, mae'n amlwg bod nifer o faterion wedi codi yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt. Yn eu plith, mae:-

- Y Dirwasgiad – Ers llunio'r cynllun gwreiddiol, mae cyflwr economaidd y byd wedi dirywio'n sylweddol. Golygodd hwn bod yn rhai edrych o'r newydd ar y camau yr oedd y Cyngor yn ymrwymo iddynt ym maes yr economi a hefyd yr her o bwysau ariannol pellach ar y Cyngor fel sefydliad
- Yr Agenda Arbedion – Yma eto, mae'r sefyllfa wedi difrifoli'n sylweddol. Erbyn hyn, mae'r Cyngor yn rhagweld gorfod wynebu arbedion o £16 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Roedd hyn yn golygu uchafu'n ymdrechion i ganfod arbedion o fewn fframwaith ein blaenoriaethau ac edrych yn feirniadol ar ein gallu i gyflawni llawer o'n ymrwymiadau blaenorol yn erbyn y cefndir hwn.

Yn ystod 2009, cynhaliwyd ail adolygiad  o'r blaenoriaethau  a nodwyd ffactorau allweddol gan staff, aelodau a'r cyhoedd drwy'r arolwg barn fyddai angen cymryd i ystyriaeth wrth adolygu cynnwys y Cynllun:  rhagor o gyfyngiadau ariannol ar gynghorau; yr angen i wella ymgysylltu gyda'r cyhoedd; sicrhau ein bod yn gyson yn canfod y dulliau gorau a mwyaf arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau a'r angen felly i

drawsnewid y Cyngor i ymateb i'r her.   Ystyriwyd pa fath o Gyngor felly oedd angen i Gyngor Gwynedd fod o fewn y blynyddoedd nesaf a cytunwyd bod angen ychwanegu rhaglenni i'r cynllun fyddai'n tywys y Cyngor tuag at drawsnewid.
Cytunwyd yn yr adolygiad  bod angen gwell a ffocws ar ganlyniadau'r gweithgareddau yma gan becynnu'r gweithgareddau o fewn rhaglenni mwy integredig fyddai'n cael eu monitro yn gyson.

Mae'r prif faterion erbyn hyn felly yn eistedd o dan 6 Rhaglen Strategol fel a ganlyn:-

- Trawsffurfio'r Cyngor
- Economi ac Adfywio
- Amgylchedd ac Isadeiledd
- Plant a Phobl Ifanc
- Gwerth am Arian
- Pobl Bregus

gyda nifer fechan o Brosiectau Strategol ar wahan.

. Mae llawer mwy o gynlluniau wedi eu paratoi ac yn cael eu gweithredu ar lefelau gwasanaethau ac unedau unigol. Mae'r cynlluniau gwasanaeth oll ar gael ar safle gwe'r Cyngor, www.gwynedd.gov.uk . Yn y cynllun hwn y ceir sylw i'r prif faterion y mae angen rhoi sylw iddynt .

O fewn **Rhan A** y ddogfen disgrifir y berthynas sydd rhwng y rhaglenni strategol a 'r Strategaeth Gymunedol. Wrth gyd-weithio yn y meysydd ymyrraeth hyn, medrwn ganolbwyntio ar y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl y Sir.

## 2. Nôd, Gwerthoedd ac Amcanion y Cyngor

Nod y Cyngor yw ceisio'r **"Gorau i Bobl Gwynedd Heddiw ac Yfory".** Wrth weithio tuag ato, byddwn yn gweithredu yn ôl y gwerthoedd a ganlyn:-

**Parch** - parchu ein pobl, ein hiaith a'n hamgylchedd
Byddwn yn ...

- agored
- gwrando
- gynhwysol, yn deg ac yn hybu cydraddoldeb
- Gyngor gofalgar
- ystyried anghenion y dyfodol
- ymddiried yn eraill
- gwerthfawrogi cyfraniad pawb

**Gwasanaethu** – gwasanaethau o'r ansawdd gorau i'n cwsmeriaid
Byddwn yn ...

- gwneud gwahaniaeth

- ddibynadwy, hyblyg a chyfleus
- darparu gwasanaethau ar sail anghenion ein cwsmeriaid
- atebol
- parhau i wella

**Positif** – llwyddwn trwy fod yn bositif
Byddwn yn ...
- flaengar, arloesol a mentrus
- rhagweithiol ac arweiniol
- dangos hyder ac uchelgais
- falch o'n llwyddiannau

**Gweithio fel tim** – cydweithio i gyflawni dros Wynedd
Byddwn yn ...
- hyrwyddo diwylliant Un Cyngor
- gynhwysol - un gymdeithas
- cydweithio mewn partneriaeth
- cynnal a chefnogi
- dysgu


**Gwerth am arian** - gwneud y gorau gydag adnoddau Gwynedd
Byddwn yn ...
- effeithlon ac effeithiol
- gwario'n ddoeth
- blaenoriaethu
- sicrhau cynaladwyedd

Dros gyfnod y cynllun, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at bedair amcan:-

Amcan 1 - Cymuned Gynaladwy
Amcan 2 - Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd
Amcan 3 - Tegwch a Chyfloedd i Bobl a Chymunedau Bregus
Amcan 4 – Ffocws ar Drigolion

Fel y gwelir o'r diagram isod, mae tair o'r amcanion hynny, yn edrych allan ar wireddu yn y cymunedau gydag un amcan yn edrych yn fewnol ar alluogi'r Cyngor i gyflawni'r amcanion eraill.

Cynllun Tair Blynedd Cyngor 13.5.10




Rhennir gweddill y ddogfen yn ddwy ran. Mae Rhan A yn nodi'r prif faterion strategol o dan y 6 Rhaglen, gyda cyfres o weithgareddau y mae'r Cyngor am wneud gan nodi beth fydd canlyniad y gweithgareddau rheini i'n trigolion. Yn ogystal, nodir ar ddiwedd y gweithgareddau, rhai dangosyddion allweddol y bydd y Cyngor yn eu monitro'n ofalus i geisio sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion y sir. Ar yr un pryd, wrth gwrs, bydd y Cyngor yn parhau i weithredu trwy lobio ar lefel cenedlaethol i sicrhau'r gorau i'r sir a'i phobl.

Mae'r adolygiad hwn o'r cynllun wedi ei gyflawni ar ôl edrych yn drylwyr ar faterion o bwys sydd wedi newid ers cwblhau'r cynllun gwreiddiol, wedi sicrhau cyfle am fewnbwn gan aelodau etholedig a sylw i'n asesiad risg manwl ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru, sydd wedi cynnwys materion sydd wedi codi o waith o bob lefel ar draws y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatgan, er gwaethaf yr her enfawr y byddwn yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf, mai ein prif ffocws y Cyngor, dros oes y cynllun, fydd gwireddu blaenoriaethau strategol y cynllun.

Roedd y Cynllun Tair Blynedd gwreiddiol yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor i alluogi gwireddu blaenoriaethau'r Cyngor. Mae Rhan B o'r adolygiad hwn yn cynnig diweddariad ar y cynllun hwnnw.

Rydym yn cymeradwyo'r cynllun hwn i'ch sylw.



Cynllun Tair Blynedd  Cynor 13.5.10



Dyfed Wyn Edwards
Arweinydd Cyngor Gwynedd

Harry Thomas
Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Am fanylion pellach am y cynllun, neu i gael copi o’r cynllun mewn braille, print bras, neu ar dap sain cysylltwch â’r Adran Strategol a Gwella, Cyngor Gwynedd. (01286 679661)

# CYNLLUN TAIR BLYNEDD – RHAN A – Rhaglenni a Prif Faterion

## Rhaglen Strategol - Trawsffurfio'r Cyngor

### Cyd-destun Strategol

Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Gwasanaethau Cyhoeddus Arloesol." Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen  i ni ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus arloesol, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac sy'n lleihau eithrio cymdeithasol, hyn oll mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol. Mae hyn yng nghyd-destun

- Disgwyliadau uchel ynglŷn â safon gwasanaethau cyhoeddus
- Adroddiadau diweddar gan Lywodraeth y Cynulliad yn amlygu'r angen am effeithlonrwydd  a threfnu gwasanaethau fwyfwy o gwmpas y cwsmer
- Cymunedau'n newid yn sydyn ac yn dod yn fwy amrywiol
- Mae'n gynyddol anodd rheoli'r galw am fuddsoddiad pellach mewn gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn dymuno bod yn gorff sydd yn newid er mwyn cyflawni ei botensial ac yn Gyngor sydd yn sicrhau bod anghenion dinasyddion wrth galon popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud. Dros oes y Cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif faterion isod er mwyn ceisio:

- Gwrando ar lais y cyhoedd ac ymgysylltu'n well
- Rheoli newidiadau yn ofalus ac yn fwriadus
- Cynnig blaenoriaethau clir
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys prosesau busnes llyfn
- Datblygu a grymuso arweinwyr a staff i'w galluogi i weithio'n effeithiol
- Gwella cyd-weithio mewnol ac allanol er mwyn sicrhau'r defnydd orau o adnoddau cyhoeddus

### Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth yn y maes hwn, ni fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa da i ymateb i ofynion newydd. Mae peryg na fyddwn wedi gallu adnabod a chynllunio newidadau sydd eu hangen ac yna eu rheoli yn gadarn i ddod i ganlyniad. Byddwn yn ceisio cynnal gwasanaethau mewn ffurf raddodiadol a hanesyddol. Mae perygl fydde ni heb ryddhau potensial staff ac arweinwyr i gynnal y newididau sydd eu hangen dros y blynyddoedd nesaf

| **Prif Fater** | **(Gweithgaredd) Beth ydym am wneud yn 2010/11?** | **Beth fydd canlyniad hyn?** |
|---|---|---|
| **1. Trawsnewid Busnes** | • Byddwn wedi treialu dau ddull  ar gyfer trawsnewid busnes a chytuno rhaglen o drawsnewid ehangach o fewn Cyngor Gwynedd | • Gwell gwasanaeth i'r cwsmeriaid yn y meysydd lle bum yn gweithredu'r trawsnewid a hynny ar gost is. |
| **2. Newid Diwylliant** | • Byddwn wedi cyflwyno fframwaith chymell a mentora<br>• Byddwn wedi gweithredu mentrau ar gyfer dathlu llwyddiant o fewn a thu allan i'r Cyngor<br>• Byddwn wedi hyrwyddo ymddygiad yn y staff sy'n cyd-fynd â'r gwerthoedd newydd<br>• Byddwn wedi creu amgylchedd addas er mwyn hwyluso arloesi, mentro, cynryd risgiau ystyrlon a dysgu parhaus<br>• ***Byddwn wedi gwerthuso cynnydd y Strategaeth Cyfathrebu Mewnol*** | • Bydd  sgiliau staff wedi gwella ac ymagwedd tuag at y Cyngor<br>• Byddwn wedi dysgu o ymarfer da a wedi dangos gwerthfawrogiad i staff<br>• Byddwn wedi newid ymddygiadau staff i gyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor<br>• Bydd y diwylliant yn fwy mentrus<br>• Bydd gwell ymgysylltiad gyda'r gweithlu |
| **3. Rheoli Newid** | • Byddwn wedi adolygu ein trefniadau rheoli newid er mwyn paratoi  ar gyfer trawsnewid y Cyngor ac wedi canfod capasiti ar gyfer cefnogi'r newid | • Trefniadau rheoli newid y Cyngor wedi eu gwella |
| **4. Cyfranogaeth y Gymuned** | • Bydd rhaglen waith  ar gyfer ymgysylltu wedi ei chytuno a chychwyn gweithredu<br>• Byddwn yn ymgynghori ar ddulliau eraill yr hoffai ein dinasyddion weld o roddi llais i'n cymunedau.<br>• Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu ar ganlyniadau'r Arolwg Barn. | • Mwy o drigolion Gwynedd yn teimlo fod y Cyngor yn gwneud ei orau drostyn nhw ac yn teimlo eu bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hardal leol.<br>• Negesuon a nodwyd yn yr arolwg barn yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | dylanwadu ar raglen waith y Cyngor |
| **5. Perfformiad** | • Byddwn wedi gweithredu ar rhaglen waith i gyfarfod â gofynion Rhaglen Wella Cymru, Llywodraeth y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru<br><br>• Byddwn wedi ymestyn defnydd System Rheoli Perfformiad Ffynnon ar draws holl adrannau'r Cyngor | • Bydd trefniadau cynllunio busnes a rheoli perfformiad y Cyngor yn cefnogi gwella gwasanaethau  ac yn arfau defnyddiol i wella canlyniadau i ddinasyddion<br><br>• Gwell systemau rheoli perfformiad fydd yn sicrhau mewnbynnu data unwaith yn unig, yn rhoi gwybodaeth amserol ac yn fwy cost effeithiol |
| **6. Datblygu Arweinyddiaeth Gwleidyddol** | • Parhau gyda'r Strategaeth Hyfforddi gan sicrhau cyfweliadau datblygu personol a chynllun datblygu personol gyda pob aelod o'r Bwrdd<br><br>• Byddwn wedi mabwysiadu disgrifiad rôl a chymwyseddau ar gyfer Cadeiryddion ac aelodau craffu | • Aelodau'r Bwrdd gyda cynllun personol yn weithredol<br><br>• Cyfleoedd ar gael i aelodau gallu datblygu sgiliau craffu cadarn |
| **7. Hunan Asesiad o'r Cyngor** | • Byddwn wedi cwblhau Hunan Asesiad o drefniadau arweinyddiaeth, ymgysylltu a llywodraethu'r Cyngor a llunio Cynllun Gweithredu Gwelliant | • Bydd y Cyngor wedi cytuno ar y meysydd lle mae trefniadau yn foddhaol a hefyd ar gamau i wneud gwaith datblygu pellach lle y mae ei angen |
| **8. Llywodraethu Corfforaethol** | • ***Byddwn wedi cyflwyno fframwaith i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag egwyddorion llywodraethu da*** | • ***Bydd y Cyngor mewn sefyllfa i gyflwyno côd lleol i egluro'r egwyddorion, rheolau a phrosesau y bydd yn eu defnyddio wrth gyflawni ei ddyletswyddau*** |
| **9. Gofal Cwsmer** | • Adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau a'r cyfleon ar gyfer gwella gofal cwsmer ar draws y Cyngor<br><br>• Bydd Gwasanaethau Cynllunio yn cael eu darparu o Galw Gwynedd ac ar y wefan | • Gwell profiad cwsmer i'r dinasyddion<br><br>• Ateb cyflymach, un pwynt cyswllt a sicrwydd eu bod yn derbyn gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau cynllunio. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Bydd y prosesau a gyfer darparu gwasanaethau trwyddedu, LLygredd a Difa Pla a Safonau Masnach wedi eu hail ddylunio a'r gwaith technegol wedi ei gwblhau yn bariod i'w cyflwyno o Galw Gwynedd<br><br>• Byddwn yn ail drefnu cynnwys y wefan i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion defnyddwyr | • Mwy o anghenion trigolion yn cael eu cyflawni ar-lein a thrwy hynny lleihad yn y costau darparu. |
| **10. Prosiect Cydweithio** | • Byddwn wedi adolygu'r trefniadau cydweithio yn ardal Penllyn a'r Bala ac wedi datblygu model cynaladwy y gellir ei ymestyn i ardaloedd eraill yng Ngwynedd | • Mwy o gymunedau yn derbyn cyfrifoldeb am wasanaethau bwrdeistrefol lleol |

## Rhaglen Strategol – Economi ac Adfywio

### Cyd- destun strategol

Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Economi a Sgiliau" Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynyddu ffyniant cymharol trwy wella'r sylfaen sgiliau, cynyddu mentergarwch a chreu cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd uchel yn wyneb bygythiadau a chyfleoedd o fewn yr economi byd-eang. Mae hyn yng nghyd-destun

- Cyfartaledd enillion Gwynedd ymysg yr isaf yng Nghymru.
- Twf wedi tueddu i ddigwydd mewn sectorau o werth ariannol cymharol isel
- Diffyg mewn sectorau twf / gwerth ariannol uwch, fel yr economi wybodaeth neu rhai gwasanaethau, yn gwneud yr economi leol yn fwy bregus
- Dibyniaeth ar nifer fach o sectorau am gyflogaeth yn yr ardal yn creu economi fregus
- Canran arwyddocaol o gyflogwyr Cymru yn adrodd bod diffygion sgiliau arwyddocaol ymysg eu gweithwyr
- Perifferaledd yr ardal a'i bellter o farchnadoedd mawr yn cyfrannu at danberfformiad cymharol yn yr economi

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaladwy yn amcan o'r pwys mwyaf. Rhaid i Gwynedd fod yn hyfyw ac yn gynaladwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol am y blynyddoedd i ddod ac i wneud hyn mae angen iddo adeiladu ar ei gryfderau ac ymateb i rwystrau sydd yn gwynebu ei boblogaeth rhag ffynnu.

Mae'r Cyngor yn dymuno meithrin a datblygu cymuned sirol sy'n gynaladwy a felly dros oes y cynllun bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif faterion a nodir isod er mwyn ceisio:-

- Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir
- Darparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleon yn y farchnad lafur
- Cynnig tegwch a chyfleon i gymunedau bregus
- Ceisio sefydlu'r ffordd orau i dorri'r cylch amddifadedd
- Targedu a datblygu sectorau o bwys yng Ngwynedd gan adeiladu ar ein cryfderon

### Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb i'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn, mae perygl y gwelwn gwanhau mewn rhai sectorau , cymunedau anghytbwys a gwan, di -boblogi ac economi sydd yn fregus ac yn anghynaladwy; yn  arbennig mewn rhai rhannau o'r Sir

| **Prif Fater** | **(Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11?** | **Beth fydd canlyniad hyn?** |
|---|---|---|
| **11. Ymateb i'r dirwasgiad** | • Ar sail ymchwil pellach, dod i benderfyniad ar sefydlu cronfa fuddsoddiad newydd i Wynedd er mwyn gwella mynediad busnesau i gyllid i fuddsoddi<br>• Bydd mesurau ar waith i gefnogi'r economi i gyfarch unrhyw leihad yn y sector gyhoeddus | • Mynediad hwylus gan y gymuned fusnes i gefnogaeth gyllidol<br>• Mwy o amrywiaeth yn sail yr economi yng Ngwynedd |
| **12. Targedu Sectorau**<br>Cefnogi a chreu'r amodau cywir i ddatblygu busnesau yn y sectorau twf ac arwyddocal fyddai'n arwain at swyddi o ansawdd a gwerth uchel yn economi Gwynedd | • Cydweithio â Phrifysgol Bangor a Chanolfan Betsi Cadwalader er mwyn paratoi cynlluniau i sefydlu Campws Meddygol a Thechnoleg ym Mangor fyddai'n sbarduno twf clystyrau o fusnesau yn y maes iechyd a thechnoleg<br>• Cydweithio â Chyngor Sir Ynys Môn er mwyn cytuno ar rhaglen i uchafu'r budd i economi'r gogledd orllewin drwy ddatblygiad newydd Wylfa B a'r broses ddatgomisiyu.<br>• Byddwn wedi cefnogi busnesau yn y sector adeiladu i gystadlu am gytundebau yn y rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru<br>• Byddwn wedi lobio a chydweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i fuddsoddi yn yr isadeiledd technoleg gwybodaeth fyddai'n galluogi busnesau bach gwerth uchel leoli ar draws Gwynedd | • Byddwn wedi cryfhau'r gweithredu yn y sector iechyd a technoleg gyda cynllun ar gyfer safle Bryn Cegin wedi ei gyflwyno gan y partneriaid<br>• Rhaglen waith a'r cerrig milltir wedi eu sefydlu<br>• Byddwn wedi cynyddu nifer yr adeiladwyr sydd yn gymwys i fod ar y rhestrau tendro er mwyn cadw cyn gymaint o'r gwariant a sydd bosib yn lleol<br>• Isadeiledd Technoleg Gwybodaeth wedi ymestyn er mwyn i fusnesau a gwasanaethau dderbyn yr amodau cywir i leoli ar draws y Sir |
| **13. Datblygu Digwyddiadau Mawr** | • ***Uchafu'r budd i Wynedd yn sgil digwyddiadau*** | • ***Bydd mwy o ddigwyddiadau o safon yn*** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***mawr megis Digwyddiad y Faenol a'r Big Weekend***<br>• ***Parhau i ymgyrchu i ddenu digwyddiadau mawr i'r Sir*** | ***dod i'r ardal***<br>• ***Tystiolaeth bod budd economiadd sylweddol wedi dod i'r ardal*** |
| **14. Targeu Rhaglenni Ariannol Allanol** | • Byddwn yn rhagweithiol er mwyn manteisio i'r eithaf i ddenu adnoddau ariannol i'r Sir drwy rglenni fel Cydgyfeiriant a cronfeydd y Cynulliad | • Byddwn wedi gallu ariannu prosiectau o'r newydd drwy'r cronfeydd |
| **15. Caffael** | • Byddwn wedi targedu o leiaf 2 o brif gontractau er mwyn sicrhau ystyriaeth gytbwys a phriodol o faterion economaidd, amgylcheddol chymdeithasol Cydraddoldeb a iaith wrth eu paratoi a'u dyfarnu trwy ddefnyddio'r Polisi Caffael Cynaladwy<br>• Gwella'r technegau cyfathrebu gyd'r sector fusnes er mwyn gallu tendro am waith yn lleol | • Bod ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wedi derbyn sylw wrth asesu prif gontractau<br>• Cynnydd yn y  nifer o fusnesau lleol yn cystadlu am waith |
| **16. Cynllun Cyflogaeth** | • Bydd dogfen Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd mewn lle<br>• Byddwn yn rhagweithiol wrth dargedu adnoddau i gyflawni prosiectau blaenoriaeth  o fewn y Cynllun Cyflogaeth | • Mesurau yn eu lle i ymateb i anghenion economi Meirionnydd fydd yn cefnogi cynnydd mewn cyflogaeth ac yn enwedig ymysg pobl ifanc<br>• Arian yn ei le ar gyfer targedu gweithgareddau |
| **17. Pobl Ifanc 18 – 24 Di waith** | • Datblygu a gweithredu rhaglen o brosiectau i gynnig profiadau gwaith i unigolion di-waith gan roi sylw arbennig i dargedu pobl ifanc 18-24 oed | • Bydd cyfleon i rai sydd yn ddi-waith gael mynediad i brofiadau gwaith |
| **18. Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Mon** | • Gweithredu cyfres o raglenni i dargedu grwpiau sydd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEETS) gan roi sylw arbennig i bobl ifanc<br>• Cynnal  asesiad o anghenion marchnad lafur y Gogledd Orllewin yn sgil gwybodaeh newydd am | • Lleihad yn y lefelau diweithdra Gwynedd a'r % sy'n economaidd anweithredol<br>• Anghenion cyflogwyr a thueddiadau yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | ddatblygiadau sylweddol<br>• Sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad i'r Fagoloriaeth yn ôl y rhaglen gyflwyno ac ar draws ystod oedran gan greu cyswllt clir gyda rhaglen Llwyddo'n Lleol a Dynamo Cymru | farchnad lafur yn cael eu hadlewyrchu yn y ddarpariaeth hyfforddiant yng Ngwynedd<br>• Mwy o gyfleon i bobl ifanc fynd ar raglenni prentisiaeth |
| **19. Torri'r cylch amddifadedd** | • Cael trefn newydd ar gyfer cyd gynllunio gwaith rhwng Tai ac Adfywio yn y cymunedau difreintiedig<br>• Cryfhau perchnogaeth gwasanaethau ar draws y Cyngor i'r 8 Cynllun Adfywio ardal | • Wedi uchafu gwerth buddsodiad a gwneud defnydd gorau posib o'r adnoddau sydd wedi eu targedu gyda perchnogaeth lleol dros y penderfyniadau<br>• Ymrwymiad gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu a gweithredu blaenoriaethau yn yr wyth Cynllun Adfywio Ardal |

## Rhaglen Strategol: Amgylchedd ac Isadeiledd

### Cyd-destun strategol

Mae dau o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yn berthnasol i elfennau o'r rhaglen hon. Yn gyntaf, mae "Newid Hinsawdd" yn nodi bod angen i ni weithredu'n lleol er mwyn wynebu sialensiau a ddaw yn sgìl newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol lleol:-

- Os byddwn yn parhau i gynhyrchu lefelau uchel o $CO_2$ bydd y tymheredd yn parhau i godi.
- Mae'r nifer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae'r risg o lifogydd yn uchel yn cynyddu
- Er gwaethaf natur wledig y sir, mae trigolion Gwynedd yn cynhyrchu ôl troed ecolegol uchel o'i gymharu â gweddill Cymru
- Mae ôl-troed unigolyn o Fangor yn uwch nag ôl-troed unigolyn o Gaerdydd neu Abertawe

Yn ail. Mae "Tai" yn nodi bod angen gwella cyflenwad, ansawdd, fforddiadwyedd ac addasrwydd y stoc dai er mwyn cwrdd ag anghenion y boblogaeth. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- 10.5% o'r stoc gyfan yn anfoddhaol - y chweched uchaf yng Nghymru
- 47% o dai Gwynedd wedi eu hadeiladu cyn 1919,  o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 32%
- 8.6% o stoc tai Gwynedd yn wag
- Perygl o brisio pobl, yn arbennig teuluoedd ifanc, allan o'r farchnad dai
- Lefel uchel o ail gartrefi yn gyrru prisiau tai yn uwch
- Anghenion cymdeithas yn newid – rhagor o aelwydydd un person / poblogaeth yn heneiddio

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaladwy  yn amcan o'r pwys mwyaf.
Mae'r Cyngor yn dymuno meithrin a datblygu cymuned sirol sydd yn gynaladwy. Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif faterion a nodir isod er mwyn ceisio sicrhau:-

- Lleihau ôl-troed ecolegol y Sir ac ymateb yn ddoeth i newid yn yr hinsawdd
- Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas
- Rheolaeth gadarn o wastraff y Sir
- Cefnogaeth ar gyfer mynediad hwylus  at wasanaethau

### Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb i'r Cyngor ymyrryd yn y maes hwn, mae perygl y gwelwn cymunedau anghynaladwy a gwasanaethau sydd ddim wedi eu paratoi i ymateb i newid yn yr hinsawdd

| Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11? | Beth fydd canlyniad hyn? |
|---|---|---|
| **20. Tai Fforddiadwy** | • Byddwn wedi sicrhau bod 15% o'r holl unedau tai newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn dai fforddiadwy<br>• Y Cyngor wedi adolygu cynllun Cymorth Prynu ac wedi adnabod opsiynau gyda partneriaid i hyrwyddo mynediad i'r farchnad dai | • Byddwn wedi creu 60 o dai fforddiadwy yn y cyfnod<br>• Bydd  30 prynwr tro cyntaf wedi cael mynediad i'r farchnad dai |
| **21. Dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd** | • Byddwn wedi hyrwyddo dod ag eiddo gwag yn  ôl i ddefnydd **lleol** a dod ac  eiddo masnachol yn ôl i ddefnydd | • Bydd 100 o eiddo gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd |
| **22. Rheoli Risg Llifogydd** | • Byddwn wedi cynhyrchu strategaeth ymateb i beryglon llifogydd ar gyfer Tref Pwlheli.y gellir wedyn ei ddefnyddio fel templed ar gyfer ardaloedd eraill. | • Cynllun cytunedig ym mherchnogaeth y gymuned ar gyfer ymdrin â bygythiadau llifogydd i'r dyfodol. |
| **23. Newid Hinsawdd** | • Fel rhan o'r Prosiect Newid Hinsawdd, Newid Lleoedd byddwn wedi yn gweithio gyda 2 faes gwasanaeth o fewn y Cyngor er mwyn adnabod cyfleon a bygythiadau sy'n debygol o ddeillio o newid hinsawdd ac wedi cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn adnabod y prif faterion. | • Bydd Cynlluniau gwasanaeth Priffyrdd a Gofal henoed yn manylu'r camau angenrheidiol i warchod rhag sgil effeithiau gwaethaf newid hinsawdd |
| **24. Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon** | • Byddwn yn llunio rhaglen ar gyfer ymestyn cwmpas Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd i'r gymuned ehangach<br>• Byddwn yn gweithredu ar Gynllun Rheoli Carbon | • Lleihad mewn ôl troed carbon o fewn y gymuned ehangach.<br>• Lleihad o 15% mewn allyriant CO2 o |

| | | |
|---|---|---|
| | y Cyngor er mwyn sicrhau lleihad yn yr allyriant o CO2<br><br>• Byddwn yn arwain rhaglen y Bwrdd gwasanethau Lleol i leihau allyriadau Carbon gan y cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd.<br><br>• Byddwn yn gweithredu ar raglen waith er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd safon Lefel 3 yn Fframwaith Asesiad Caffael Cynaliadwy (SPAF) Gwerth Cymru 2011/12. | adeiladau'r Cyngor erbyn 2011/12.<br>• Lleihad o 20% mewn allyriant CO2 o drafnidiaeth cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn 2011/13.<br>• Lleihad o 603 tunnell o allyriant CO2 cyfwerth sydd yn deillio drefnidau rheoli gwastraff cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn 2011/12.<br><br>• Lleihad o 15% mewn allyriant o CO2 o adeiladau annomestig cyrff y Bwrdd Gwasanaethau Lleol erbyn 2011/12<br><br>• Polisiau caffael sydd yn cydymffurfio ag ymarfer da o ran cynaladwyedd. |
| **25. Lleihau a Rheoli Gwastraff** | • Byddwn wedi cyflawni asesiad cychwynnol o ymgeiswyr/darparwyr prosiect gwastraff gweddilliol rhanbarthol<br>• Byddwn wedi llunio strategaeth ar gyfer sicrhau fod yna ymestyniad o'r niferoedd sy'n cymeryd rhan yn ein rhaglen ail gylchu.<br>• Byddwn wedi dethol darparwr ar gyfer creu y cyfleuster i ymdrin â gwastraff bwyd | • 52 % o wastraff yn cael ei ailgylchu a compostio erbyn 2013<br>• 8000t o wastraff bwyd yn cael ei ddargyfeirio o dirlenwi i gyfleuster compostio erbyn 2013.<br>• Mwy o drigolion Gwynedd yn ail gylchu |
| **26. Polisiau Cynllunio** | • Byddwn wedi ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ynglyn â'r weledigaeth â'r amcanion strategol<br>• Bydd Cytundeb cyflawni ar gyfer Cynllun | • Cyfraniadau wedi'i sicrhau gan ystod rhanddeiliaid y Cynllun Datblygu Lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | Datblygu Lleol wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad | • Cymeradwyaeth wedi'i dderbyn gan y Cynulliad i symud ymlaen i lunio'r CDLl |
| **27. Ail-fodelu cludiant** | • Bydd Rheolwr Uned Cludiant Integredig wedi ei benodi gydag achos busnes lawn wedi'i lunio i sefydlu Uned Cludiant Integredig<br>• Byddwn yn gweithredu rhaglen waith y Strategaeth Cludiant Gymunedol gan lunio cynllun gweithrdu mewn ymgynghoriad gyda'r trydedd sector. | • Gwell defnydd o adnoddau yn sgil uchafu integreiddio gweithgareddau cludiant<br>• Cynnydd yn y defnydd o gludiant cymunedol yng Ngwynedd |

# Rhaglen Strategol -  Plant a Phobl Ifanc

## Cyd-destun Strategol

Un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw "Newid Demograffig". Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynllunio i ymateb i newid demograffig sylweddol a chynyddu ymdrechion i wneud yr ardal yn ddeniadol i deuluoedd a phobl ifanc. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Mae cyfartaledd oedran Gwynedd yn 40.4, o'i gymharu â 38.6 yng Nghymru a Lloegr
- Rhwng 2001 a 2026, bydd poblogaeth Gwynedd yn weddol sefydlog ond byddwn yn gweld:-
  - llai o blant
  - cynnydd yn nifer yr henoed
  - gostyngiad yn y nifer o bobl mewn oedran gwaith

Yn erbyn y cefndir hwn, mae cynnal cymuned sirol gynaladwy yn amcan o'r pwys mawr.
Mae datblygu potensial pob plentyn a pherson ifanc o fewn y sir, gyda'r addysg gorau a'r alwy o gwricwlwm a chyrsiau addas ar eu cyfer hefyd yn amcan o'r pwys mawr .

Ojherwydd natur cymdeithas, mae crebachu adnoddau yn fwy o fygythiad i rai carfannau mewn cymdeithas  felly mae'n bwysig i gymryd y cyfle i ymgymryd â gwaith ataliol

Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif faterion a nodir isod er mwyn:

- Ceisio symud rhwystrau i ryddhau potensial plant a phobl ifanc ar draws y Sir
- Darparu'r math cywir o arlwy addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn potensial
- Cymryd camau i wella cyfleon i blant, pobl ifanc gan sicrhau gwasanaethau ataliol fydd yn cynnig ymyrraeth cynnar i'r rhai sydd ei angen

## Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth, fydd yn fwy fwy anodd i ddarparu cyfleon cyfoes ar gyfer addysg ac hyfforddiant ar draws y Sir fydd yn cyrraedd gofynion cyflogwyr a ddyheadau plant aphobl ifanc. Bydd risg, heb ymyrraeth yn gynharach , bydd rhai carfannau o blant yn cael eu hamddifadu yn fwy nag eraill fydd yn rhoi cychwyn gwael iddynt am weddill eu hoes.

| Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11? | Beth fydd canlyniad hyn? |
|---|---|---|
| **28. Ad-drefnu Ysgolion Cynradd** | • Byddwn wedi cwblhau asesiad effaith ieithyddol a chymunedol yn ardaloedd Tywyn a'r Berwyn<br>• Byddwn wedi cynnal cyfarfodydd statudol yn y 6 ysgol yn ardal Tywyn ,wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol statudol a chynnal yr ymgynghoriad statudol<br>• Byddwn wedi cynnal cyfarfodydd statudol yn ardal y Berwyn ,wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol statudol a chynnal yr ymgynghoriad statudol<br>• Byddwn wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ardal y Gader i'r Cyngor llawn yn Hydref 2010<br>• Byddwn wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ardal y Eifionydd i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2010 | • Byddwn wedi gweithredu'r rhannau perthnasol o'r Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir |
| **29. Addysg Uwchradd a Hyfforddiant 14-19** | • Byddwn wedi cyflwyno manylion ar gyfeiriad a dyfodol addysg a hyfforddiant 16-19 yn y Sir<br>• Bydd Grwp Llywio Addysg Uwchradd wedi cwblhau ei waith ar oblygiadau y newidiadau ar y sector uwchradd yng Ngwynedd i'w hystyried | • Bydd y dewis gwricwlaidd i bobl ifanc wedi ei ymestyn |
| **30. Cynllun Tlodi Plant** | • Cynllun cynhwysiad ariannol wedi ei ymestyn i ddwy Ysgol Uwchradd yn Nwyfor a dwy yn Arfon<br>• Strategaeth Tlodi Plant aml-asiantaethol wedi ei chytuno ac ymgynghoriad wedi ei gynnal arni | • Cynnydd yn y niferoedd o bobl ifanc yn ymarfer eu sgiliau llythrennedd ariannol drwy gynilo'n rheolaidd gyda'r Undeb Credyd<br>• Teuluoedd yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt oresgyn tlodi yn sgil cyhoeddi Strategaeth Tlodi Plant |

| | | |
|---|---|---|
| **31. Gweithredu Strategaeth Ymyrraeth Gynnar** | • Gweithdrefnau Tim o Amgylch y Plant wedi ymestyn i ardaloedd eraill o Wynedd- Dwyfor, Caernarfon, Bangor, Dyffryn Ogwen a Blaenau Ffestiniog<br>• ***Byddwn wedi ehangu cynlluniau rhiantu*** | • Cynnydd yn y niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth aml asiantaethol<br>• Lleihad yn y niferoedd o blant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol yn sgil derbyn ymyrraeth aml-asiantaethol |
| **32. Trawsnewid Gwasanaethau Ieuenctid** | • Cynyddu'r % o bobl ifanc yn defnyddio amrediad o wasanaethau ieuenctid yng Ngwynedd , yn arbennig mewn ardaloedd wedi eu targedu<br>• Gwneud gwell defnydd o'r Gwasanaeth i ddatblygu sgiliau pobl ifanc Gwynedd | • Byddwn wedi cyrraedd targed a osodwyd ar gyfer denu grwpiau penodol o bobl ifanc i'r gwasanaeth o ardaloedd wedi eu targedu<br>• Bydd cynnydd o ..... yn y nifer o achrediadau |

# Rhaglen Strategol -   Gwerth am Arian

### Cyd-destun strategol

Fel y nodwyd eisoes, un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw Gwasanaethau Cyhoeddus Arloesol.", gyda'r Strategaeth yn nodi bod angen i ni ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus arloesol, gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion ac sy'n lleihau eithrio cymdeithasol, hyn oll mewn hinsawdd o gyfyngiadau ariannol. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Pwysau ariannol cyson ar bob maes o wariant cyhoeddus
- Pwysau ariannol sydd yn debygol o barhau tros y tymor canolig a hwy
- Pwysau amlwg o du Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan am gynnydd mewn arbedion effeithlonrwydd
- Tueddiadau posib mewn penderfyniadau dyrannu adnoddau all fod yn anffarfiol i'r sir

Mae sicrhau gwasanaethau effeithiol ac ymatebol yn greiddiol i rôl y Cyngor. Mae adnoddau cyhoeddus yn crebachu a'n hasedau cyhoeddus yn heneiddio. Ar yr un pryd, mae disgwyliadau'r cyhoedd am safon gwasanaethau yn cynyddu.

Er mwyn medru goroesi a datblygu'r gwasanaethau gorau ar yr adeg hyn, rhaid sicrhau bod y Cyngor ei hun mewn cyflwr gorau posib gyda'u adnoddau i wneud hyn. Golygai rheolaeth gadarn ar ei adnoddau ariannol, rheini wedi eu blaenoriaethu ar sail gwybodaeth a data cadarn ac wedi eu cynllunio yn erbyn anghenion bwriadus. Mae'n golygu newid mewn gwasanaethau a moderneiddio, mae'n golygu arbed ble mae llai o angen a chydweithioble'n berthnasol er mwyn  sicrhau defnydd gorau o'r adnoddau rheini

Mae'r Cyngor yn dymuno bod yn gorff sydd yn newid er mwyn cyfawni ei botensial i gyfrannu at wella Gwynedd ac yn Gyngor sydd yn gwneud y gorau oll o'r adnoddau sydd ganddo . Dros oes y cynllun, bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r prif faterion a nodir isod er mwyn:-

- Canfod arbedion ariannol sylweddol
- Ail- gyfeirio adnoddau
- Gwneud defnydd effeithiol o'n systemau a thechnoleg
- Gwella'n systemau gwybodaeth a data
- Gnweud defnydd effeithiol o'n hasedau

### Mater- Disgrifiad o'r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth yn y maes hwn, byddwn yn methu cyrraedd ein targed arbedion, byddai gennym lai o arbedion effeithlonrwydd a risg gwirioneddol o dorri 'r pethau anghywir gan felly fethu ar gynnal gwasanaethau allweddol i'r dyfodol

| Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11? | Beth fydd canlyniad hyn? |
|---|---|---|
| **33. Strategaeth Ariannol** | • Byddwn wedi adolygu a gwella ansawdd y Strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2011/12 – 2013/14<br><br>• Byddwn wedi cwblhau adolygiad o Gynllun Asedau'r Cyngor | • Strategaeth Arinannol 2011/12 – 2013/14 yn cynnwys cynlluniau ariannol gwasanaethau.<br><br>• Cynlluniau gwariant o fewn y Strategaeth Asedau wedi eu haddasu i sicrhau cydbwysedd gyda'r adnoddau llai fydd ar gael. |
| **34. Rhaglen Arbedion** | • Byddwn yn gweithredu ar y rhaglen arbedion £16miliwn ac yn paratoi ar gyfer arbedion 2011/12 | • Byddwn wedi gwireddu arbedion £4.5 yn ystod 2010/11<br>• Bydd arbedion cyfwerth a £4.5m yn barod i'w gweithredu ar 1 Ebrill 2011 |
| **35. Systemau Adnoddau Dynol Integredig** | • Byddwn wedi prynu a mewnosod system newydd gyda'r prosiect yn gwella effeithlonrwydd ein rheolaeth gwybodaeth am staff | • Gwell gwasanaeth cyflogau a gwybodaeth adnoddau dynol i reolwyr y Cyngor am gost llai. |
| **36. Gwybodaeth a Data** | • Byddwn wedi mabwysiadu strategaeth wybodaeth ar gyfer y Cyngor.<br><br>• Byddwn wedi cyflwyno achos busnes ar gyfer system rheoli gwybodaeth electronig a llunio cynllun prosiect | • Gwell defnydd o adnodd wybodaeth y Cyngor am gost llai. |
| 37. Strategaeth Pobl<br>:**Gweithio'n Hyblyg** | • Byddwn wedi ymestyn y peilot gweithio'n hyblyg fel ei fod yn rhan o weithgaredd prif lif y Cyngor. | • Gostyngiad mewn costau swyddfa a lleihad yn sylfaen costau'r Cyngor. |

# Rhaglen Strategol - Pobl Bregus

## Cyd- destun strategol

Fel y nodwyd eisoes, un o saith maes ymyrraeth y Strategaeth Gymunedol yw “Newid Demograffig”, gyda’r Strategaeth yn nodi bod angen i ni gynllunio i ymateb i newid demograffig sylweddol a chynyddu ymdrechion i wneud yr ardal yn ddeniadol i deuluoedd a phobl ifanc. Mae hyn yn y cyd-destun canlynol:-

- Mae cyfartaledd oedran Gwynedd yn 40.4, o’i gymharu â 38.6 yng Nghymru a Lloegr
- Rhwng 2001 a 2026, bydd poblogaeth Gwynedd yn weddol sefydlog ond byddwn yn gweld:-
  - llai o blant
  - cynnydd yn nifer yr henoed
  - gostyngiad yn y nifer o bobl mewn oedran gwaith
- Problemau iechyd yn cynyddu a gweithgaredd economaidd yn lleihau gyda’r blynyddoedd
- Pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a gofal
- Effaith gynyddol ar natur bywyd cymunedol yng Ngwynedd

Mae’r newid mewn cymdeithas a’r byd o’n cwmpas, y cyfeirwyd ato eisoes, yn debygol o gael fwy o effaith ar rai nag eraill. Gallai olygu mwy o bolareiddio cymdeithasol a chynnydd mewn anghydraddoldebau o fewn y Sir. Bydd crebachu adnoddau yn fwy o fygythiad i rai carfannau mewn cymdeithas os na fydddwn yn cynllunio gwasanaethau yn fwriadus a thueddiadau demograffig a chymdeithasol yn debygol o gael fwy o effaith ar rai pobl a chymunedau.
Ar yr un pryd, mae cyfleoedd i ymgymryd â gwaith i newid siâp gwasanaethau ac i gynnal gwasanaethau arloesol newydd; gan gynnwys rhai ataliol.

Mae’r Cyngor yn dymuno sicrhau cyfleodd cyfartal i bobl a chymunedau ar draws y Sir gan sicrhau bod gan uniglion mwyaf bregus y cyfleon i fyw bywyd llawn mewn sefyllfa o’u dewis. Dros oes y Cynllun , bydd y Cyngor yn mynd i’r afael â’r prif faterion a nodir isod er mwyn:-

- Cynnig tegwch a chyfleon i bobl mwyaf bregus
- Sicrhau bod drapariaethau ar gyfer pobl bregus yn cael eu cynllunio a’u comisiynu i gwrdd ag anghenion yr unigolyn
- Paratoi gwasanaethau ymatebol mewn ffordd sydd yn intgredig ac yn hwylus i gael atynt
- Rhoi cyfle i bobl fyw yn annibynnol yn ole u dymuniad

## Mater- Disgrifiad o’r Risg (Cyfle neu Fygythiad)

Heb ymyrraeth, mae peryg y bydd y gwasanaethau yn llai perthnasol i ddefnyddwyr Gwasanaeth ac yn rhy draddodiadol ac yn anghynaladwy

| **Prif Fater** | **(Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11?** | **Beth fydd canlyniad hyn?** |
|---|---|---|
| **38.Comisiynu Gwasanaethau** | • Datblygu Strategaeth Comisiynu ar draws yr Adran sy’n cwrdd ag anghenion holl grwpiau cleient ar gyfer 2010-14 gan gynnwys y prif flaenoriaethau isod:-<br><br>Adolygiad Strategol o Ofal Preswyl Pobl Hyn<br><br>Cynllun Adeiladu’r Dyfodol<br><br>Adolygu darpariaeth Anabledd Dysgu, gan gynnwys Cynllun Lletya<br><br>Adnabod Anghenion Gofalwyr | • Gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr a ac sy’n gôst effeithiol<br><br>• Darpariaeth preswyl wedi ei resymoli yng Ngwynedd gan sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion cofrestru, disgwyliadau defnyddwyr ac yn gôst effeithiol<br><br>• Tai Gofal Ychwanegol yn weithredol yn y 4 ardal o fewn y Cynllun . Byddwn wedi ail gomisiynu’r ddarpariaeth yng nghartrefi preswyl yn unol â’r Cynllun<br><br>• Eglurder ynglŷn â bwriad comisiynu ar gyfer defnyddwyr, gofalwyr a darparwyr gyda cynllun ar gael ar gyfer comisiynu<br><br>• Cynnydd yn y dewisiadau cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr a sefydlu rhai elfennau o ddewis yn eu penderfyniad i ofal |
| **39.Datblygu Gwasanaethau** | • Datblygu cynlluniau sefydlu Timau Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd<br><br>• Gweithredu ar raglen Partneriaeth mewen Gofal yn unol â Chynllun Bwrdd Gwasanaethau Lleol | • Cwrdd â disgwyliadau deddfwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gwell deilliannau i blant a theuluoedd gan sicrhau ymateb holistaidd<br>• Mi fydd y camau a’r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod 2009/10, ac yn arbennig timau ardal aml asiantaethol wedi eu gwerthuso ac yn sail ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| | | argymhelliadau pellach |
| **40.Gweithlu** | • Gweithredu'r Strategaeth Gweithlu sy'n cynnwys ymateb i fwriadau comisiynu'r dyfodol | • Gweithlu addas a saff sy'n gallu ymateb i ofynion newydd |
| **41.Perfformiad ac Adnoddau** | • Cyhoeddi a gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys:-<br><br>Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth<br><br>Cytuno ar y modd y bwriedir diwallu anghenion system Technoleg Gwybodaeth wedi i'r cytundeb RAISE ddod i ben | • Eglurder o ran y canlyniadau y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymgyrraedd atynt<br><br>• Hyder bod gwybodaeth bersonol a gedwir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gywir, yn gyfredol ac yn ddiogel<br><br>• Cynllun comisiynu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth wedi ei gytuno |

## PROSIECTAU STRATEGOL

| Prif Fater | (Gweithgaredd)<br>Beth ydym am wneud yn 2010/11? | Beth fydd canlyniad hyn? |
|---|---|---|
| **42. Siartr Iaith ar gyfer Gwynedd** | • Byddwn wedi gwreiddio addewidion y Siartr Iaith o fewn y sector gyhoeddus yng Ngwynedd gyda cynllun gwireddu a thargedau ar waith gan holl bartneriaid cyhoeddus y Siartr ac yn cael eu monitro | • Cynnydd mewn gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael yng Ngwynedd o fewn y sector gyhoeddus |
| **43. Cynllunio Ieithyddol** | • Byddwn wedi grymuso tair cymuned ( yn Pen Llŷn, Ardudwy a Dyffryn Ogwen) a'u cefnogi i gynllunio ieithyddol yn lleol gyda Cynllun Gweithredu ieithyddol ar waith i fynd i'r afael a'r materion angen sylw<br>• Cydweithio gyda dwy gymuned gyferbyniol yng Ngwynedd i lunio a rhoi ar waith Cynllun Cymhathu cymunedol fel peilot yn y ddwy gymuned | • Cynnydd yn y cyfleon i'r rhai sydd ddim yn rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r niferoedd sydd yn datgan defnyddio'r Gymraeg o'r newydd yn y dair ardal<br>• Cynnydd y y nifer o newydd ddyfodiad yn dysgu'r Gymraeg/ yn mynychu gweithgareddau diwylliannol |
| **44. Arbedion ac Effeithlonrwydd (Cam 2)** | • Datblygu 2 fframwaith effeithlonrwydd newydd- effeithlonrwydd gweithredol ac effeithlonrwydd strategol gan gynnwys dwy adolygiad strategol o wahanol feysydd Gwasanaeth<br>• Byddwn yn gweithio gyda cynghorau eraill ynglyn ag asesu opsiynau arbedion effeithlonrwydd gweithio ar y cyd | • Cynigion ar gyfer arbedion pellach ar gael yn yr Hydref a'r Gwanwyn<br>• Arbedion wedi eu gwireddu o brosiectau cydweithio |
| **45. Cynllunio Argyfwng** | • Byddwn wedi llunio llawlyfr gweithredu; sicrhau fod pawb yn deall eu rol yn y broses a chynnal ymarfer ar gyfer llifogydd.<br>• Byddwn wedi creu llawlyfr gweithredu ar gyfer Pandemig Ffliw i adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd oddi wrth profiadau 2009/10. | • Cymunedau mwy diogel gan y byddwn wedi ymarfer y cynlluniau argyfwng sydd gennym<br>• Cymunedau mwy diogel oherwydd eu bod yn ymwybodol o'r camau y byddai'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | • Byddwn wedi creu Cynllun Adferiad.<br>• Byddwn wedi adolygu'r gofrestr risgiau a'i briodoli i sefyllfa Gwynedd.<br>• Byddwn wedi sicrhau fod y capasiti priodol gennym i wireddu'r anghenion o fewn y maes Cynllunio Argyfwng | argyfwng.<br>• Mwy o warant y byddai gwasanaethau hanfodol ar gael i'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd o argyfwng oherwydd diffyg staff<br>• Cwrdd â gofynion statudol |

## Dangosyddion:

| Dangosydd | Targed 2010-11 |
|---|---|
| Canran y gwelliannau i ymateb i flaenoriaethau strategol yn y Cynllun Tair Blynedd sydd wedi cyflawni deilliant y flwyddyn | 75-80% |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun Tair Blynedd, y canran sydd wedi gwella neu wedi cynnal perfformiad | 70-75% |
| O holl ddangosyddion allweddol cerdyn cytbwys y Cyngor yn y Cynllun Tair Blynedd, y canran sydd wedi cwrdd â'r targed | 70-75% |
| Nifer rheolwyr sydd wedi ennill cymhwyster Arwain a Rheoli ILM | 180 |
| Canran yr aelodau etholedig sydd wedi derbyn isafswm o 6 awr o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn | 80% |
| Nifer o reolwyr a gorychwylwyr wedi derbyn hyfforddiant gofal cwsmer | 430 |
| Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul aelod o staff | 9.2 |
| Canran y galwadau ffôn ydd yn cael eu hateb o fewn 15 eiliad | 84% |
| Canran y llythyrau sydd yn cael eu hateb o fewn 15 diwrnod | 80% |
| Nifer pobl ifanc yn derbyn cefnogaeth trwy'r cyngor ar gyfer sefydlu busnes | 249 |
| Canran o unedau diwydiannol y Cyngor sydd yn llawn | 85% |
| Y swm ariannol a lwyddwyd i'w ddenu trwy wneud cynnydd derbyniol yn erbyn cerrig milltir y Cytundeb Gwelliant | 1.3m |

Cynllun Tair Blynedd  Cyngor 13.5.10

| | |
|---|---|
| Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb<br><br>Cynnydd yn Treth y Cyngor<br><br>Cyfanswm y cynlluniau arbedion y gellir eu gwireddu<br><br>Cyfanswm y cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi eu canfod | Gwario o fewn y gyllideb neu ddim mwy na 0.4% yn uwch y flwyddyn<br>Amrywiaeth o ddim mwy na +/_ 1% o gfartaledd y cynnycc ar draws Cymru<br>£16m ( 2010/11- 20112/13)<br><br>£5.7m |
| Nifer o unedau gofal ychwnegol wedi eu datblygu | 130-150 |
| Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal neu newid amylchiadau (dyddiau) | 13 |
| Canran y gofalwyr ifanc y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt gafodd eu hasesu | 80% |
| Canran y lleoliadau cyntaf ( i blant sy'n derbyn gofal) sy'n dechrau gyda chynllun gofal clir yn ei le | 90% |
| Canran o blant mewn gofal gafodd eu penblwydd yn 16 oed gyda chynllun llwybr bywyd | 100% |
| Nifer o leoliadau maeth newydd yn ystod y cyfnod | 40 |
| Canran o'r asesiadau cychwynnol a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn unol â'r Fframwaith Asesu-Gwasanaeth Arbenigol Plant | 60% |
| Canran y cyfeiriadau sydd yn cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis | 20% |
| Nifer y teuluoedd digartref wedi eu lleoli mewn llety dros-dro am fwy na 6 mis gan yr Awdurdod | 0 |
| Canran graddau A*-G TGAU neu gyfatebol | 91% |
| Canran y disgyblion 16 oed sy'n ennill y Dangosydd Pwnc Craidd | 47% |

| | |
|---|---|
| Canran y disgyblion sydd wedu eu hasesu ar Lefel 3 cadarn yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n dilyn rhaglen astudio | 89% |
| Lleihad yn ôl troed adeiladau'r Cyngor | 10,000m2 |
| Canran o adeiladau'r Cyngor sydd yn y Categori cyflwr "Da" neu "Derbyniol" | 85% |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu neu ei ail ddefnyddio | 23% |
| Canran o wastraff dinesig a gaiff ei gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall | 22% |
| Canran o wastraff dinesig pydredig a gaiff ei dirlenwi | 51% |
| Canran o leihad mewn allyriant CO2 o'r defnydd o eiddo yn adeiladau anomestig y Cyngor | 15% |
| Nifer y tai Cyngor ble mae gwelliant wedi ei wneud isymud tuag at y Safon Tai Cymru 2012 | 1880 |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd  chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd a chafodd ganiatad cynllunio yn ystod y flwyddyn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd | 15% |
| Canran y priffyrdd a thir perthnasol â archwilwyd sydd a'u safon glanweithdra yn uchel neu dderbyniol | 95% |

**Cynllun Tair Blynedd y Cyngor**
**Rhan B - Diweddariad ar y Cynllun Ariannol Tair Blynedd ar gyfer 2010/11**

1. Blwyddyn ariannol 2010/11 yw blwyddyn olaf y cynllun tair blynedd.

2. Yng nghynllun y llynedd fe roddwyd diweddariad o’r tafluniad ariannol gwreiddiol a roddwyd yng nghymal 40 y Cynllun gwreiddiol oedd yn rhagweld y byddai modd i’r Cyngor osod cyllideb o £217.54m yn 2010/11 i’w chyllido drwy grant Llywodraeth y Cynulliad o £170.89m a chynnydd o 4% a ragwelwyd yn y Dreth Gyngor fyddai’n cynhyrchu £46.65m.

3. O ganlyniad byddai angen gostwng y gofyn cyllidebol o £222.09m a ragwelwyd y byddai ei angen drwy ddarganfod arbedion cyfwerth a    £4.55m.

4. Bu cryn dipyn o newid yn y sefyllfa ar gyfer 2010/11 gyda’r cynnydd o 2.3% a ragwelwyd yn y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gostwng i 0.8% yn bennaf oherwydd cychwyn y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus.

5. Golyga hyn ein bod wedi derbyn £2.3m yn llai o gynnydd na ddisgwyliwyd pan yn diweddaru’r cynllun tair blynedd yr adeg yma y llynedd.

6. Yn ffodus iawn i ni, bu gostyngiad sylweddol (£3.7m) hefyd yn y symiau y bu’n rhaid i ni ei ddarparu ar gyfer chwyddiant gan gynnwys cynnydd llai na’r disgwyl yng nghyflogau gweithwyr yn 2009/10 a darpariaeth llai a wnaed ar gyfer 2010/11 oherwydd pwysau llai yn dod o dy ffigyrau chwyddiant.

7. Effaith hyn oll, gan gynnwys rhai materion bychan eraill oedd gostyngiad yn yr arbedion y bu’n rhaid eu darganfod o’r £4.55m a ragwelwyd yn wreiddiol i £3.2m.

8. Wrth daflunio ymlaen yn Chwefror 2008 felly fe ragwelwyd erbyn 2010/11 y byddai cyllideb o £217.6m ar gael i ni i gyflawni amcanion y Cyngor ac er mwyn cadw gofynion o fewn y ffigwr hwnnw y byddai’n rhaid i ni ddarganfod arbedion o £11.88m (gweler cymal 40 y cynllun gwreiddiol).

9. Nodwyd hefyd y byddem yn cadw’r cynnydd yn y Dreth Gyngor i amrediad o +1%/-1% o’r cyfartaledd Cymreig bob blwyddyn.

10. Erbyn hyn fe welir mai £217.2m fydd y gyllideb sydd ar gael i ni yn 2010/11 ac ein bod wedi gorfod darganfod arbedion cyfwerth a £12.2m dros y tair blynedd er mwyn cadw o fewn y ffigwr hwnnw.

11. Bu modd cadw'r cynnydd blynyddol yn y Dreth Gyngor i o gwmpas y cyfartaledd Cymreig yn unol a'r addewid gyda chynnydd 0.1% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2008/9; yn union fel y cyfartaledd yn 2009/10 a 0.2% yn uwch na'r cyfartaledd yn 2010/11.

12. Yn sgil y cyfyngiad tebygol ar wariant yn y sector gyhoeddus am gyfnod estynedig, mae'r Cyngor bellach wedi cynnal adolygiad sylfaenol o sut y mae'n bwriadu wynebu'r bygythiad yma ac wedi llunio rhestr arbedion cyfwerth a bron i £16m er mwyn bod yn barod ar gyfer y broblem.

13. Mae o hefyd wedi cwblhau'r gwaith o lunio Cynllun Rheoli Asedau'r fydd yn caniatáu i ni gymryd gogwydd hir dymor ar ei fuddsoddiadau cyfalaf gan sicrhau eu bod yn gyson a'i flaenoriaethau strategol a'r adnoddau sydd ar gael.

14. Mae'r cynllun eleni yn cynnwys nifer o welliannau fydd yn arwain at leihau sylfaen costau'r Cyngor drwy weithio mewn ffyrdd gwahanol. Erbyn y byddwn wedi defnyddio'r oll o'r £16m a nodir uchod, y gobaith yw y bydd nifer o rhain ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw arbedion pellach y bydd eu hangen er mwyn ceisio lleihau effaith y wasgfa ariannol ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i ein dinasyddion.

15. Bydd y datblygiadau yma yn caniatau i ni gynllunio'r Cynllun Tair Blynedd nesaf mewn ffordd bwyllog gan sefydlu beth yr hoffai'r Cyngor fod yn ei gyflawni a heb y broblem o orfod ymateb yn frysiog ac afresymegol i'r cyfyngiadau ariannol sydd am ein taro.